

NODIADAU ARIANNOL

Cyfraniadau a chau'r llyfrau cyfrifon yn brydlon

Diolchir i nifer dda o'r aelodau am gyfrannu yn gynnar yn ystod eleni, ond fe apelir eto ar i'r gweddill ohonoch dalu eich cyfraniadau mewn da bryd, erbyn **30 Tachwedd**, os gwelwch yn dda. Bydd hyn yn hwyluso'r Trysorydd yn fawr i gau'r llyfrau yn gynnar yn Ionawr 2005.

Cymorth Rhoddion a Chyfamodau

Mae nifer dda o'r aelodau yn awr yn manteisio ar yr arfer o gyfrannu drwy Gymorth Rhoddion ac anogir y gweddill ohonoch sy'n talu treth incwm ar y raddfa sylfaenol i ddilyn yr un patrwm. Mae'r ad-daliad y gellir ei hawlio o'r dreth incwm yn ffynhonnell ddefnyddiol iawn o arian i'r Eglwys, a hynny heb unrhyw gost ychwanegol i'r aelodau.

Gallwch gael ffurflenni Cymorth Rhoddion oddi wrth yr Ysgrifennydd Ariannol, Mr D Bryn Lloyd.

Llawer o ddiolch i bawb am eu cefnogaeth barhaol i'n hymdrechion ni yn y Garn.


Mynwent y Garn

Er mwyn sicrhau diogelwch yn y fynwent ac i gydymffurfio ag amodau lechyd a Diogelwch, byddwn yn trefnu i gael gwared o'r pedair coeden sydd ar y ffin rhwng y fynwent ac Ysgol Rhydypennau. Yn anffodus, maent yn pydru yn y canol, a byddant yn rhy beryglus gyda hyn. Bydd y gwaith hwn yn costio yn agos i £1,500, a bydd Mr Eddie Jones yn croesawu pob cyfraniad tuag at dalu am y gwaith yma.

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn 12 Rhagfyr i:

Mr Dewi G Hughes


Bod Hywel

 (828026)

dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes

14 Maes y Garn

(828662) 

marian_hughes@btinternet.com

Gair o'r Garn

Cylchlythyr Eglwys y Garn,

Bow Street

Rhif 15

Hydref 2004




Gweinidog

Parch R W Jones

Haddef

6 Maes Afallen

Bow Street

 (01970 828006)


Ysgrifennydd

Mr Eddie Jenkins

Eryl

Llandre

Bow Street

(01970 828147) 

Gair gan y Gweinidog

Pe bawn i'n dechrau hyn o sgriblo trwy ddyfynnu'r emyn:

Tad tragwyddoldeb, plygaf ger dy fron,
Ceisiaf dy fendith ddechrau'r flwyddyn hon

fe fyddai pobl yn dechrau holi tybed a oeddwn i wedi cymysgu'r dyddiau. Ond, bob dechrau Medi, felly y teimlaf – fel pe bai blwyddyn newydd yn dechrau. Mae hynny'n wir yn hanes ysgolion a cholegau, ond eu bod yn rhoi'r gair 'academaidd' ar ôl 'dechrau blwyddyn'. Ac rydw i o'r farn fod hyn yn wir yn hanes yr Eglwys hefyd.

Nid na fu i rai pethau ddigwydd yn ystod yr haf. Bu llwyddiant mewn sawl eisteddfod; cafwyd canlyniadau'r arholiadau mewn ysgol a choleg, – a'n llongyfarchion i'n pobl ifanc ar eu llwyddiant. Cofiwn y bydd rhai ohonynt yn troi'n ôl i'r ysgol neu'r coleg eto; ond i eraill daw cychwyn mewn ysgol newydd, a bydd yn gychwyn mewn coleg am y tro cyntaf i rai. Dymunwn yn dda iddynt.

Ond i ni a fydd yn aros bydd yn ddechrau newydd hefyd. Wedi cyfnod tawel yr haf, bydd cymdeithasau'n ailddechrau. Wynebwn ar yr Ŵyl Ddiolchgarwch a'r Nadolig, a'r bwrlwm sydd ynghlwm wrth y ddwy ŵyl. Os oes rhai wedi dechrau llacio'u gafael – ac mae arwyddion fod – bydd yn gyfle i ail-gydio; ac i'r rheini sydd heb fod yn rhan o'r gynulleidfa ers tro, bydd yn gyfle, fel ar ddechrau blwyddyn, i wneud adduned newydd i fod yn ffyddlon.

Bydd yn ddechrau newydd i'r Parch Wiliam Owen, Gwenan a Dewi Huw hefyd, gan y bydd Wiliam yn cael ei sefydlu'n weinidog ar nifer o eglwysi yn sir Benfro. Dymunwn ninnau'n dda iddynt fel teulu, a bendith fo ar y weinidogaeth.

Robert W Jones

Rhagfyr

- 1 Cymdeithas y Chwiorydd
Siôn Meredith yn sôn am ei waith
gyda Tearfund
ynghyd â chrefftau'r gwledydd
- 5 Parch Athro John Tudno Williams
- 12 Oedfaon i'w trefnu
- 17 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
Dathlu'r Nadolig gyda'r Parch W J Edwards
- 19 Gwasanaethau'r Nadolig
dan ofal y Bugail
- 25 Dydd Nadolig – oedfa gymun am 9 o'r gloch dan ofal y Bugail
- 26 Parch W J Edwards
Bugail
- 31 Gwynos dan arweiniad y Bugail am 11.30 o'r gloch



Cofiwch ymweld â'r arddangosfa arbennig sydd i'w gweld yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru tan 8 Ionawr 2005:

I Achub Hen Rebel – Cymru a'r Diwygiad 1904–05

Arddangosfa i ddathlu canmlwyddiant y Diwygiad mawr diwethaf – Diwygiad Evan Roberts 1904–05. Mae'r arddangosfa yn cynnwys cyhoeddiadau, ffotograffau a memorabilia o'r Diwygiad a ledodd drwy Gymru gan ddenu sylw rhyngwladol.

Tachwedd

- 3 Cymdeithas y Chwiorydd am 2.30 o'r gloch
Mary Fitter – 'Atgofion Cofrestrydd'
- 7 Parch A Wynne Edwards
- 14 Parch Pryderi Ll Jones
- 19 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
BJ a Pharti Iau Licris Alsorts
- 21 Uno â'r Noddfa yn oedfa'r bore
Oedfa'r hwyr yn y Garn – Bugail
- 26 Pwyllgor Blaenoriaid am 7 o'r gloch
- 27 Ffair y Capel yng ngofal y Chwiorydd
- 28 Mr Alun Creunant Davies

* Dymuna'r Parch Elwyn a Mrs Tegwen Pryse ddiolch yn *
* fawr iawn i bawb am y cyfarchion a'r dymuniadau da a *
* dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas aur yn *
* diweddar. Diolch yn arbennig am y cerdyn a anfonwyd ar *
* ran Merched y Garn - gwerthfawrogwyd y cyfan yn fawr. *
*

Prin yw dosbarth Ysgol Sul i oedolion erbyn hyn, ond bob Sul am ddau o'r gloch y pnawn, yn ystod tymor yr ysgol, mae chwech ohonom yn cwrdd yn ysgoldy Bethlehem Llandre i gynnal grŵp astudio a thrafod. Y Maes Llafur eleni yw Joel/Amos, ac i ddechrau ym mis Chwefror Actau'r Apostolion.

Rydym eisoes wedi cychwyn ar lyfr y Proffwyd Joel – llyfr byr, hyfryd ei ddisgrifiadau, y gellir ei ddarllen yn gyfan mewn llai na noson, a'i gymhwyso at ein profiad a'n hamgylchiadau ni heddiw yn ein byd seciwlar fel sydd ohoni. Hawdd felly yw codi trafodaeth yn y dosbarth, a chnoi cil ar hyn wedi dychwelyd gartref ymhen yr awr.

A gaf fi gymell rhagor o bobl i ymuno â ni yn ein trafodaeth? Does dim rhaid i chi dendio'n gyson, ac mae'r cyfarfod yn hollol anffurfiol – heb arholiad ar ddiwedd y cwrs!

Does neb yn y dosbarth wedi arbenigo mewn astudiaeth Feiblaidd, ond mi gredaf fod pob aelod yn ymddiddori yn y pwnc. Yn bersonol, cefais agoriad llygad i'r Hen Destament wedi ymuno â'r dosbarth ym Methlehem, a gallaf eich sicrhau y bydd croeso i unrhyw un arall ddod atom ar bnawn Sul.

Gaenor Hall

Cynhelir yr oedfaon am 10 a 5 o'r gloch.
Ysgol Sul y plant a'r ieuencid am 10 o'r gloch.
Yn dilyn oedfa'r bore, mae gwahoddiad cynnes i bawb gymdeithasu dros gwpanaid o de neu goffi – yr elw at gronfa'r adeiladau.

Myfyrdod


Mynd i'r siop y diwrnod o'r blaen a dal y drws i wraig ganol-oed ddod allan; hithau'n fy mhasio heb edrych arnaf. Stopio'r car – er mai gen i roedd yr hawl – er mwyn gadael i gar arall gael mynd yn gyntaf; hwnnw'n mynd heibio fel 'tawn i ddim yn bod. Plentyn mewn pram yn taflu tegan ar y stryd, minnau'n ei godi; y fam yn ei gythru oddi arnaf, yn rhegi'r plentyn ac, yn guchiog ei gwedd, yn mynd ymlaen ar ei hynt.

Peidiwch â 'nghamddeall i! Doeddwn i ddim eisiau ffws, ond fe fyddai gwên, codi llaw neu sibrwd diolch wedi bod yn dderbyniol. Ond ai adlewyrchiad o'r gymdeithas yn gyffredinol yw'r tair enghraifft? Y gwên a glywn yw fod 'Diolch' yn air prin.

Os yw hynny'n wir, does ryfedd fod Cyfarfod Diolchgarwch yn mynd ar i lawr. Os na fedrwn ni ddiolch i'n gilydd, sut y mae disgwyl i ni ddiolch i Dduw?

Ond efallai na wêl rhywun ddim i ddiolch amdano. Pam y dylwn i ddiolch? Dydy bywyd ddim yn hawdd, a dw i'n gweithio'n ddigon caled am yr hyn ydw i'n ei gael.

Oes gen ti blant? Maen nhw'n cael addysg ac fe fyddan nhw'n dod adre'n saff o'r ysgol. Edrych i gyfeiriad Rwsia; fe aethon nhw i'r ysgol, ond ddôn nhw byth adre, – a dwed air o ddiolch.



Ydych chi'n poeni am ddyfodol yr achos yma yn y Garn?
Ydych chi'n pryderu am ddyfodol y dystiolaeth Gristnogol yn yr ardal yma?
Yna, dewch i Gapel y Morfa, Aberystwyth, nos Fercher 27 Hydref am 7 o'r gloch i sesiwn gyntaf hyfforddiant dan nawdd Rhaglen Genhadol Eglwys Bresbyteraidd Cymru.
Nod yr hyfforddiant yw sbarduno unigolion ac eglwysi i feddwl o ddifrif am eu rôl genhadol ac ail-ystyried eu bywyd ysbrydol ac eglwysig yng nghyd-destun yr efengyl a'r gymdeithas gyfoes.
Thema'r cyfarfod cyntaf fydd 'Yr Eglwys ar ddechrau mileniwm newydd'. Bydd y cyflwyniad yn gyfoes a bywiog, a cheir cyfle i holi a thrafod. Croeso cynnes i bawb.

Cymdeithas Lenyddol y Garn

Swyddogion 2004–05

Llywydd: Parch R W Jones
Cadeirydd: Mr Erddyn James
Is-gadeirydd: Mr Vernon Jones
Ysgrifennydd: Mrs Mary Thomas
Trysorydd: Mrs Bet Evans

Drama fer fer

Jane: Ti'n gwbod fod Jack yn ein helpu ni gyda'r gwaith nawr?

Jo (yn anghrediniol): Na! Sut gath e 'i ddwyn mewn 'te?

Jane: Ti'n cofio neson ni apelio am wirfoddolwyr yn ein cylchlythyr mis dwetha?

Jo: Do!

Jane: Wel, 'na fe. Fe wirfoddolodd.

Jo: Hy! Pwy ma' fe'n meddwl yw e? B... Sais d...! Ma' 'da fi lot mwy o brofiad na fe o'r math 'na o waith.

Jane: 'Nest ti wirfoddoli?

Jo: Na.

Jane: Pam?

Jo: Fi? Wel, doeddwn i ddim yn siŵr oedd gen i'r cymwystere a, ti'n nabod fi, dw i ddim mo'r teip i wthio fy hun.

Jane: Ond ti newydd ddeud fod gen ti lot mwy o brofiad na Jack!

Jo: Tw trŵ, 'merch i, tw trŵ.

Jane: Wel diolch Jo, ma' dy brofiad di wedi bod yn help mawr i ni y mis dwetha 'ma. Nos da!

Does yna neb yn dy rwystro di rhag mynd o gwmpas yn weddol ddidramgwydd; edrych i gyfeiriad Irac, y bomio a'r saethu, a byw yn hunllef, – a dwed air o ddiolch.

Mae dy gnydau di'n tyfu, pe bai ond y blodau neu'r chwyn yn yr ardd; mae yna dyfiant a'r ffrwyth ar dy fwrdd. Dydy hi ddim wedi bwrw glaw mewn rhannau o'r Affrig ers blynyddoedd, a dim ond llwch gei di o lwch!, – a phlyga i ddiolch.

Ar ddiwedd dydd, mi fyddi'n cau'r drws rhag y nos ac yn suddo i foethusrwydd dy aelwyd wedi dy amgylchynu gan beirianwaith y dechnoleg ddiweddaraf; ond dim ond cyfnas blastig fydd to i rywrai a'r aelwyd fydd hofel neu ddrws siop, – a rho air o ddiolch.

Os wyt ti'n mwynhau bywyd ac iechyd, ac yn gallu symud o gwmpas, rho dro i Ysbyty Bronglais, o ward i ward, dos a gwêl "deulu'r poen a'r cystudd", – ac o waelod dy enaid, diolcha!

Ac ar ambell awr dywyll yn dy hanes, a bywyd fel pe bai o'n cau i lawr arnat ti, fe ddaeth rhywun yn dawel, dawel i sefyll yn d'ymyl di; adawodd o mo'i enw, ond gadawodd ei fendith a'i nerth. Ac os gwyddost ti am brofiad fel yna, rho ddiolch iddo a chanmol ei enw:

diolch fo'n ein calon,

moliant yn ein cân.

Cymdeithas y Chwiorydd

Croeso i bawb ar ddechrau tymor newydd i'r cyfarfod misol cyntaf ddydd Mercher Hydref 6ed am 2.30 o'r gloch yn Ffestri'r Garn, pryd y byddwn yn cynnal gwasanaeth o ddiolchgarwch dan ofal y Parch Adrian Williams, Aberystwyth.

Bydd te yn dilyn y gwasanaeth.

Estynnir gwahoddiad i unrhyw un ymuno â ni yn y gwasanaeth hwn yn ogystal â'r cyfarfodydd eraill a gynhelir ar y prynhawn Mercher cyntaf yn y mis. Bydd y cyfarfodydd yn dechrau am 2.30 o'r gloch.

Cytunodd y canlynol i weithredu ar y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn 2004–2005:

Llywydd: Mrs Rhian Jones

Cadeirydd: Y Fonesig Alwen Morgan

Ysgrifenyddes: Mrs Elen Evans

Trysorydd: Mrs Ray Evans

Aelodau eraill: Mrs Gwenda Edwards; Mrs Ann Jones; Mrs Vera Lloyd; Mrs Glenwen Thomas; Mrs Mary Thomas; Mrs Dwysli Peleg-Williams.

Grŵp Help Llaw




Trowch i mewn i festri'r Garn ar brynhawn Mercher (2.30 pm) i fwynhau paned a sgwrs. Bydd cyfle, os dymunwch hynny, i helpu gyda pharatoi bocsys 'Dolig ar gyfer Operation Christmas Child, cefnogi Tŷ Gobaith, gwau ar gyfer yr anghenus yn Lithuania neu hybu gwaith OXFAM yn lleol.

Cewch fynd a dod fel y mynnoch – byddwn yn falch o'ch gweld unrhyw amser.

Shan Hayward (828268) a Bethan Jones (611502)

Hydref

- 3 Parch W J Edwards
- 6 Cymdeithas y Chwiorydd am 2.30 o'r gloch
Gwasanaeth Diolchgarwch dan ofal
y Parch Adrian Williams, Aberystwyth
- 8 Pwyllgor Blaenoriaid am 7 o'r gloch
- 10 Parch Stanley Lewis
- 17 Sul Diolchgarwch
dan ofal y Bugail
Oedfa gymun yn yr hwyr
- 
- 22 Cyfarfod Diolchgarwch Bethlehem am 7 o'r gloch
Pregethir gan Miss Beti Griffiths
- 24 Parch Richard Lewis
Bugail
- 27 'Yr Eglwys ar ddechrau mileniwm newydd'
Sesiwn hyfforddiant yn y Morfa, Aberystwyth, am 7 o'r gloch
- 29 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
Rocet Arwel Jones – 'Teithio yn Cenia'
- 31 Parch Wiliam Owen